# COFNODION Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL

| Dyddiad y cyfarfod: | 13.07.2022 |
|---|---|
| Lleoliad: | Microsoft Teams |

## YN BRESENNOL:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Laura Anne Jones AS | Aelod rhanbarthol dros Ddwyrain De Cymru a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Chwaraeon |
| Mike Hedges AS | Aelod etholaethol dros Ddwyrain Abertawe |
| Alun Davies AS | Aelod etholaethol dros Flaenau Gwent |
| Heledd Fychan AS | Aelod rhanbarthol dros Ganol De Cymru |
| Tom Giffard AS | Aelod rhanbarthol dros Dde Orllewin Cymru |
| Simon Johnson | Prif Swyddog Gweithredol Tennis Cymru |
| Matt Adams | Rheolwr Calon Tysul |
| Matthew Williams | Pennaeth Polisi a Chyfathrebu Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| Emilia Douglass | Staff cymorth Aelod i Laura Anne Jones AS |
| Ryland Doyle | Staff cymorth Aelod i Mike Hedges AS |
| Stephanie Grimshaw | Staff cymorth Aelod i David Rees AS |
| Jena Quilter | Ymchwilydd Grŵp i'r Ceidwadwyr Cymreig |
| Curtis Shea | Staff cymorth Aelod i Darren Miller AS |
| Shah Almon Shumon | Staff cymorth Aelod i John Griffiths AS |
| Alex Sims | Staff cymorth Aelod i Jenny Rathbone AS |

## YMDDIHEURIADAU:

# COFNODION Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Samuel Kurtz AS | |
| Delyth Jewell AS | |
| Llyr Gruffydd AS | |
| Jack Sergeant AS | |
| Luke Fletcher AS | |
| David Rees AS | |
| Jenny Rathbone AS | |

## CRYNODEB O'R CYFARFOD:

**Laura Anne Jones (LAJ):** Croesawodd Laura y grŵp, gan amlinellu nad yw'r cyfleusterau chwaraeon yng Nghymru wedi cael cyllid ar raddfa fawr ers X o flynyddoedd. Nododd ei bod yn bwysig bod cyfleusterau llawr gwlad a phroffesiynol yn cael sylw ac ein bod yn adeiladu ar y gwaith hwn.

**LAJ:** Croesawodd y gwestai cyntaf, Matt Adams, gan wahodd ef i siarad.

**Matt Adams (MA):** Cyflwynodd ei hun fel rheolwr Calon Tysul, canolfan hamdden gymunedol yn Llandysul, Ceredigion, a ffurfiwyd yn 2017 ar ôl i Gyngor Sir Ceredigion drosglwyddo perchnogaeth 'Canolfan Hamdden Llandysul' i Ymddiriedolwyr Canolfan Dŵr Llandysul.

Adeiladwyd yr adeilad ei hun yn y 70au ac mae hyn wedi creu problemau o ran costau cynnal gan nad yw'r adeilad wedi'i inswleiddio. Enillodd y ganolfan warged bach yn ei thrydedd flwyddyn ond mae prisiau cynyddol tanwydd a thrydan wedi cael effaith sylweddol ar y ganolfan.

Yn 2018/19, roedd costau cynnal y ganolfan tua £6000 y flwyddyn. Ond erbyn hyn, y gost a ragwelir yw £12,000.

Er bod y safle wedi goroesi drwy gyfnod y cyfyngiadau symud, cafodd y gost o gau'r ganolfan am naw mis effaith andwyol.

**MA:** Yn ddiweddar, cynhaliodd y ganolfan gyfarfod brys ar sut i liniaru'r costau rhagweledig a fydd yn dyblu dros fisoedd y gaeaf. Canlyniad y cyfarfod oedd y dylid lleihau'r oriau agor, i lawr o 50 awr yr wythnos, sef y trefniant blaenorol.

Mae hyn yn peri pryder arbennig iddynt gan eu bod yn cynnal gwersi i 350 o blant y mis a 150 o ysgolion cynradd. Hefyd, iaith y ddarpariaeth yw'r Gymraeg, sy'n bwysig ar gyfer hyrwyddo diwylliant Cymru.

# COFNODION Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL

**LAJ:** Gofynnodd Laura a oedd gan unrhyw un gwestiynau pellach?

**Alun Davies (AD):** Pwysleisiodd Alan fod ganddo ddiddordeb yn effaith yr argyfwng costau byw a'i fod yn deall ei bod yn anodd cynyddu costau gwersi gan y byddai hyn yn arwain at waharddiadau, a holodd **MA** sut y maent yn bwriadu mynd i'r afael â'r costau cynyddol hyn?

**MA:** Mae gwersi nofio fel arfer yn costio £22 y mis am wers hanner awr bob wythnos. Mae'r rhain wedi aros yr un fath ers pedair blynedd. Nawr, gyda biliau cynyddol, maen nhw wedi codi'r pris i £25 y mis. Nid yw costau aelodaeth wedi cynyddu oherwydd eu bod yn cynhyrchu ychydig o refeniw. Mae gwersi nofio yn denu £8000 y mis, ac mae'r biliau ar hyn o bryd (ond yn sicr o godi) yn £7000 ond nid yw hyn yn cynnwys costau eraill megis staffio.
**Matthew Williams (MW):** Esboniodd wrth y grŵp nad yw'r broblem hon yn unigryw, ond yn hytrach ei bod yn berthnasol i'r diwydiant cyfan.

**Mike Hedges (MH):** Sut mae'r dull hwn yn cymharu ag ymddiriedolaethau a darparwyr eraill? A oes cyfle i'r cyngor neu sefydliadau eraill sy'n rhoi grantiau ddarparu grantiau tymor byr?

**MA:** Dywedodd wrth y grŵp ei fod nhw wedi mynd at ddau gyllidwr lleol, a bod un ohonynt yn fferm wynt yn yr ardal a dderbyniodd ei gais ar y funud olaf. Fodd bynnag, nododd fod y fferm wynt bron wedi gwario ei chyllid yn llawn ar gyfer eleni.

Dywedodd wrth y grŵp ei fod nhw hefyd wedi gofyn am gyllid unigol preifat ond mai dewis olaf oedd hwn.

Mae cynlluniau ar waith i wella'r adeilad mewn dau gam. Y cyntaf yw gwella'r goleuadau a'r gwresogi o ynni adnewyddadwy. Yr ail gam hirdymor yw adeiladu system insiwleiddio oherwydd ar hyn o bryd, mae angen o leiaf 10 o bobl ar gyfer pob gwers i adennill y costau ynni am wers awr o hyd ynghyd â'r costau gweithredu sylfaenol i'w gwneud yn ymarferol.

**Alex Sims (AS):** Gofynnodd i MA ddarparu manylion am y cynlluniau i ddefnyddio ynni adnewyddadwy gan fod tystiolaeth sy'n awgrymu nad yw pŵer solar yn ddigonol. Hefyd, darparodd wybodaeth am gyllid y Llywodraeth ar gyfer cynyddu'r gwaith adeiladu, y gellid ei ystyried.

**MA:** Cadarnhaodd y byddai'n anfon y cynlluniau hyn at y grŵp (NODER: mae'r manylion ynghlwm wrth y cofnodion).

# COFNODION Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL

**MW:** Cadarnhaodd fod pryder traws-sectoraidd am gynnydd enfawr mewn costau ynni na ellir eu bodloni yn y tymor byr. Mae gan lawer o bobl yn y sector gynlluniau tymor canolig a hir i ddechrau defnyddio ynni adnewyddadwy ond y problemau uniongyrchol y maen nhw'n cael trafferth â nhw yw'r cynnydd o 50-300% mewn costau yn y sector.

**LAJ:** Gofynnodd i'r grŵp a oeddent am drafod unrhyw beth pellach?
Diolchodd i Matt Adams am sgwrsio, ac fe'i gwahoddwyd i gloi'r sesiwn.

**MA:** Diolchodd i'r grŵp am wrando. Anogodd MA yr aelodau i ystyried cefnogi'r canolfannau hamdden cymunedol bach gan fod 80% o byllau nofio Cymru dros 20 mlwydd oed.
**LAJ:** Roedd LAJ yn awyddus i gymryd egwyl hanner ffordd drwy'r sesiwn i rannu ymddiheuriadau gan yr aelodau a ganlyn:

- Samuel Kurtz AS
- Delyth Jewell AS
- Llyr Gruffydd AS
- Jack Sergeant AS
- Luke Fletcher AS
- David Rees AS

**LAJ:** Symudodd ymlaen i'r gwestai nesaf, Simon Johnson.

**Simon Johnson (SJ):** Cyflwynodd ei hun fel Prif Swyddog Gweithredol Tennis Cymru, ers 2019, a chyflwynodd rai ystadegau am dennis yng Nghymru.
Mae 1000 o gyrtiau tenis ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol.

**SJ:** Mae tri sector sy'n datblygu ar gyfer Tennis Cymru:

1. Ysgolion ac addysg: 300-350 o gyrtiau o fewn ysgolion uwchradd. Eu nod yw Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain sydd am gynnwys tennis ar y cwricwlwm, cynnig addysg o ansawdd da ac offer am ddim. Maent yn dymuno optimeiddio cyfleusterau i alluogi cymunedau lleol i gael mynediad atynt y tu allan i oriau ysgol.
   Amlygwyd i'r grŵp eu bod yn datblygu Cynllun Cyfleusterau Cenedlaethol.

2. Parciau cyhoeddus: 300 o gyrtiau mewn parciau cyhoeddus sydd angen eu huwchraddio'n strategol. Yn y gorffennol, roedd ceidwaid a oedd yn trefnu digwyddiadau ac archebion. Mae angen buddsoddi arian mewn seilwaith technoleg er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a system archebu hawdd i'r cyhoedd. Chwilio am fuddsoddiadau.

3. Clybiau Tenis - Rhwydwaith o 100 o glybiau a chanolfannau gyda 150+ o gyrtiau. Mae'r rhain yn cael eu rhedeg gan ymddiriedolaethau elusennol ac ati. Fodd bynnag, eto, mae angen moderneiddio a buddsoddi mewn strwythurau rheoli proffesiynol.

**SJ:** Dywedodd Simon wrth y grŵp fod edeifion gwaelodol yn perthyn i bob un o'r rhain. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau technoleg, modelau llywodraethu gwell, a chynaliadwyedd.

MH: Holodd SJ am y diffyg cyllid a roddwyd gan Tennis Cymru i'w athletwyr gorau.

SJ: Mae Tennis Cymru wedi bod yn gweithio gydag Abertawe i gynhyrchu un cynllun cydlynol. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd i bobl roi cynnig ar dennis am ddim ac yn creu llwybr fel bod y rhai sydd am symud ymlaen yn gallu cael cymorth ariannol. Enghraifft berffaith o hyn yw Mimi Webb a wnaeth ei hyfforddiant yn Abertawe ac a fu'n chwarae yn Wimbledon eleni. Fodd bynnag, byddai cost uwchraddio Abertawe, er enghraifft, yn costio tua 3 miliwn o bunnoedd.

LAJ: Gofynnodd LAJ a oedd unrhyw gymorthdaliadau ar gyfer y rhai sydd am ddysgu i chwarae?

SJ: Dywedodd SJ wrth y grŵp, yn y gorffennol, nad oedd digon wedi'i baratoi â'r sector addysg a'r Awdurdodau Lleol ond ei fod yn gweithio i sicrhau bod yr adnoddau hyn ar gael. Rhoddodd SJ yr enghraifft o 'Park Run' a'r awydd i wneud rhywbeth fel hyn.

LAJ: Gofynnodd LAJ a oedd unrhyw gwestiynau eraill ac a oedd gan y grŵp unrhyw syniadau o faterion yr hoffent fynd i'r afael â nhw yn y dyfodol?

MH: Argymhellodd MH y dylid cyfarfod â grwpiau chwaraeon ar lawr gwlad fel grwpiau rygbi, pêl-droed a chriced.

# COFNODION Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL

MH: Argymhellodd MH bod gweinidogion y Llywodraeth yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol.

LAJ: Diolchodd i'r grŵp a'r gwesteion am fod yn bresennol a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at barhau â’r adolygiad hwn ar ôl y toriad.